# Adroddiad Blynyddol Monitro Cydraddoldeb

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

2024-25 (1 Ebrill 2024 - 31 Mawrth 2025)




ATAL AMDDIFFYN YMATEB
PREVENTING PROTECTING RESPONDING

## Mynegai


| ADRODDIAD MONITRO CYDRADDOLDEB | |
|---|---|
| TROSOLWG | 3 |
| POB GWEITHIWR | 6 |
| YMGEISWYR LLWYDDIANNUS AC AFLWYDDIANNUS | 12 |
| STAFF GWEITHREDOL SYDD WEDI YMGYMRYD Â HYFFORDDIANT | 16 |
| MODIWL E-DDYSGU CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT | 18 |
| GWEITHWYR YN ÔL RHYWEDD A SWYDD | 20 |
| YN Y 5% UCHAF O RAN ENILLION | 24 |
| GWEITHWYR YN ÔL MATH O GONTRACT | 25 |
| GWEITHWYR YN GADAEL YR OCHR WEITHREDOL | 26 |
| GWEITHWYR YN GADAEL Y GWASANAETHAU CORFFORAETHOL | 27 |
| YMCHWILIADAU SY'N YMWNEUD Â NODWEDDION GWARCHODEDIG | 28 |
| SIARADWYR CYMRAEG | 29 |


## Rheoli Fersiwn

| Rhif y Fersiwn | Newidiadau a Wnaed | Dyddiad y Newid | Gan Bwy |
|---|---|---|---|
| 0.1 | Crëwyd y ddogfen. | 11/04/2025 | DVJ |
| 0.2 | Ychwanegwyd cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol a chrynodeb. Diweddarwyd y diwyg. | 03/06/2025 | DVJ |
| 0.3a | Ehangwyd y delweddau/graffiau. Ychwanegwyd naratif | 12/06/2025 | BE |
| 0.3b | Addaswyd data ymgeiswyr o Ch4 i Flwyddyn Ariannol | 09/06/2025 | DVJ |
| 0.4 | Addaswyd data gadawyr o Ch4 i Flwyddyn Ariannol | 10/06/2025 | DVJ |
| 0.5 | Ychwanegwyd data D&G yn gysylltiedig â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | 23/06/2025 | DVJ |
| 0.6 | Newidiadau terfynol i'r naratif yn sgil data newydd yn cael ei ychwanegu | 23/06/2025 | BE |

## Trosolwg

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r data Cydraddoldeb a gasglwyd gan gofnodion gweithwyr iTrent ar 31 Mawrth 2025. Mae'r data wedi'i rannu'n nifer o adrannau gan gynnwys:

- Data'r holl weithwyr;
- Data ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus;
- Data am y staff hynny ar yr ochr weithredol sydd wedi ymgymryd â hyfforddiant;
- Data ar y rhai yn y Gwasanaeth sydd ymhlith y 5% uchaf o ran enillion;
- Data ar weithwyr yn ôl rhywedd a swydd;
- Data ar weithwyr yn ôl math o gontract;
- Data ar y rhai sy'n gadael yr Ochr Weithredol a'r Gwasanaethau Corfforaethol;
- Data ar siaradwyr Cymraeg y Gwasanaeth;
- Ystadegau ar faint o weithwyr sydd wedi cwblhau'r modiwl LearnPro perthnasol ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Er bod yr adroddiad hwn yn rhoi'r ystadegau yn seiliedig ar 949 o staff, mae'n bwysig nodi nad dyma gyfanswm nifer y gweithwyr a gyflogir gan y Gwasanaeth.

Y nifer gwirioneddol o bobl a gyflogwyd gan GTAGC ar ddiwedd y chwarter oedd 887, gyda chyfanswm o 949 o swyddi yn cael eu llenwi gan y staff hynny. Mae hyn yn golygu y bydd nodweddion gwarchodedig y rhai sydd mewn dwy rôl yn cael eu cyfrif ddwywaith e.e., os yw diffoddwr tân gweithredol yn yr Ystafell Reoli hefyd yn Rheolwr Criw ar y System Dyletswydd Ar Alwad, bydd eu nodweddion gwarchodedig yn cyfrif yn ystadegau'r Ystafell Reoli, ac yn ystadegau'r System Dyletswydd Ar Alwad.

| Category | Number of Positions Filled |
|---|---|
| Retained | 487 |
| Wholetime | 247 |
| Green Book | 143 |
| Control | 31 |
| Apprentice - Wholetime | 30 |
| Principal Officer - Gold | 6 |
| Blue Book | 5 |
| **Sum:** | **949** |

| Total Number of People (not positions) |
|---|
| **887** |


Mae'r dadansoddiad isod yn dangos faint o staff sydd wedi penderfynu datgelu gwybodaeth bersonol yn seiliedig ar eu nodwedd warchodedig a'r rhai sy'n gwrthod rhoi ateb.

Mae'r canrannau hyn yn seiliedig ar swyddi unigol sy'n dod i gyfanswm o 949.

| Nodwedd Warchodedig | Ateb a Roddwyd | Ddim yn Hysbys / Heb ei Ddatgan |
|---|---|---|
| Anabledd | 96.0% | 4.0% |
| Statws Perthynas | 97.8% | 2.2% |
| Statws Trawsryweddol* | 35.4% | 64.6% |
| Ethnigrwydd | 98.8% | 1.2% |
| Crefydd | 91.4% | 8.6% |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | 93.7% | 6.3% |

*Mae'r categori 'Ddim yn Hysbys / Heb ei Ddatgan' ar gyfer Statws Trawsryweddol hefyd yn cynnwys yr achlysuron lle ymatebodd aelod o staff trwy ddewis ‘Gwell gennyf beidio â dweud'.


**NOTE: Figures shown below are based on the number of positions. Some individuals fill more than one position.**




# Pob Gweithiwr


Mae'r adran hon yn rhoi dadansoddiad o nodweddion gwarchodedig yr holl weithwyr unigol ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2024/25.


## Grwpiau Oedran yr Holl Weithwyr yn ôl Teulu Swyddi





Yn 2024/25, mae swyddi'r Ystafell Reoli / yr Ochr Weithredol wedi gweld cynnydd mewn swyddi wedi'u llenwi gan bob grŵp oedran, gyda'r newid mwyaf i'w weld yn y categori 16-24, lle mae 10 yn fwy o swyddi wedi eu llenwi gan bobl yn y grŵp hwnnw o'i gymharu â 2023/24. Mae'r Gwasanaethau Corfforaethol wedi gweld cynnydd ym mhob grŵp oedran, bron â bod, er bod gostyngiad bach wedi bod yn y categorïau oedran 16-24 a 35-49 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.








## Anabledd yr Holl Weithwyr













Cyfanswm nifer y swyddi a lenwyd gan unigolyn a oedd yn datgelu anabledd ar ddiwedd 2024/25 yw 102 sydd un yn fwy na 2023/24.


Swyddi'r Ystafell Reoli / yr Ochr Weithredol sy'n dangos y gostyngiad mwyaf, gyda thair swydd yn llai wedi'u llenwi gan berson ag anabledd corfforol. Bu cynnydd mewn gweithwyr anabl ag Anabledd Dysgu gydag un swydd ychwanegol yn y Gwasanaethau Corfforaethol a dau berson ychwanegol yn yr Ystafell Reoli/Gweithrediadau.

## Statws Perthynas yr Holl Weithwyr













Y newid mwyaf mewn statws perthynas ar ddiwedd 2023/24 o'i gymharu â diwedd 2024/25 oedd gweithwyr 'Sengl' a gynyddodd +16 ar draws holl swyddi’r Ystafell Reoli / yr Ochr Weithredol. Roedd gostyngiadau bach yn nifer gweithwyr y Gwasanaethau Corfforaethol mewn Partneriaeth Sifil, â statws 'Sengl' neu Wedi Gwahanu.


## Ethnigrwydd yr Holl Weithwyr









## Crefydd / Cred yr Holl Weithwyr








## Rhywedd yr Holl Weithwyr yn ôl Teulu o Swyddi

















Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2024-25, mae cyfanswm o 43 o swyddi ychwanegol wedi'u llenwi o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol. Gellir rhannu hyn yn 10 swydd ychwanegol wedi'u llenwi gan fenywod, a 33 swydd ychwanegol wedi'u llenwi gan ddynion. Yn adrannau'r Ochr Weithredol / yr Ystafell Reoli, roedd 19 yn fwy o ddynion wedi'u recriwtio o'i gymharu â menywod. Yn y Gwasanaethau Corfforaethol y gwahaniaeth oedd pedwar yn fwy o ddynion o'i gymharu â menywod.

## Cyfeiriadedd Rhywiol yr Holl Weithwyr




Yn 2024/25, mae un swydd yn fwy lle mae'r person yn cael ei gofnodi fel Deurywiol o'i gymharu â diwedd 2023/24. Mae newid net o 0 ar gyfer Hoyw neu Lesbiaidd, gydag un swydd yn llai yn y Gwasanaethau Corfforaethol, ac un ychwanegol yn yr Ystafell Reoli/Gweithrediadau. Mae swyddi lle mae Heterorywiol wedi'i gofnodi wedi cynyddu 40 yn gyffredinol. Mae nifer y swyddi lle nad yw'r cyfeiriadedd wedi'i ddatgan wedi cynyddu un ar gyfer yr Ystafell Reoli/Gweithrediadau a'r Gwasanaethau

## Ymgeiswyr Llwyddiannus ac Aflwyddiannus


Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar nodweddion gwarchodedig pob ymgeisydd allanol llwyddiannus ac aflwyddiannus sydd wedi bod trwy'r broses recriwtio yn ystod y flwyddyn ariannol.

Sylwer:


- Mae ymgyrch recriwtio'r System Dyletswydd Amser Cyflawn yn dal i fynd rhagddi.
- Gan fod ymgyrch recriwtio'r System Dyletswydd Ar Alwad yn barhaus, mae'r holl geisiadau yn dal i fynd rhagddynt. O ganlyniad, nid oes unrhyw ddata ymgeiswyr System Dyletswydd Ar Alwad ar gael i'w gyflwyno yn yr adran hon, gan nad ydynt yn llwyddiannus nac yn aflwyddiannus ar hyn o bryd.
- Dim ond un ymgeisydd allanol llwyddiannus a gyflwynodd eu gwybodaeth anabledd yn ystod y flwyddyn, gan gofnodi anabledd dysgu.
- Yr unig adegau pan fo data ar ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael ei gyflwyno yw pan fo ymgeisydd:
    - Wedi cael ei wrthod ar y cam cyfweld
    - Wedi cael ei wrthod ar gam y rhestr fer
- Nid yw'n bosibl pennu a gafodd ymgeisydd mewnol ei ddyrchafu gan ddefnyddio data iTrent ar gyfer y rhai a oedd yn gwneud cais am swyddi Amser Cyflawn neu'r Gwasanaethau Corfforaethol.
- Nid yw statws perthynas yn cael ei ddal fel rhan o'r set ddata ar gyfer yr ymgeiswyr hynny a oedd yn aflwyddiannus.
- Mae'r graffiau ar ymgeiswyr llwyddiannus yn adlewyrchu ymgeiswyr allanol yn unig.

# Ymgeiswyr Llwyddiannus – 2024/25


## Yn ôl Grŵp Oedran





## Yn ôl Rhywe




## Yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol





## Yn ôl Ethnigrwydd




# Ymgeiswyr Aflwyddiannus – 2024/25


## Yn ôl Grŵp Oedran





## Yn ôl Rhywedd





## Yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol





## Yn ôl Ethnigrwydd



## Ymgeiswyr Aflwyddiannus yn ôl Anabledd





## Ymgeiswyr Aflwyddiannus yn ôl Crefydd




# Staff Gweithredol sydd wedi Ymgymryd â Hyfforddiant

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar nodweddion gwarchodedig yr holl staff gweithredol sydd wedi ymgymryd â hyfforddiant.


## Staff Gweithredol sydd wedi Ymgymryd â Hyfforddiant yn ôl Grŵp Oedran





## Staff Gweithredol sydd wedi Ymgymryd â Hyfforddiant yn ôl Anabledd





## Staff Gweithredol sydd wedi Ymgymryd â Hyfforddiant yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol





## Staff Gweithredol sydd wedi Ymgymryd â Hyfforddiant yn ôl Crefydd / Cred



## Staff Gweithredol sydd wedi Ymgymryd â Hyfforddiant yn ôl Statws Perthynas





## Staff Gweithredol sydd wedi Ymgymryd â



## Modiwl E-Ddysgu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae'r adran ganlynol yn canolbwyntio ar gyfanswm nifer y bobl sydd wedi'u cofnodi fel rhai sydd â statws Modiwl E-Ddysgu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant dilys ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.


| Statws Presennol | Nifer y gweithwyr / Canran yn 2024/25 | Nifer y gweithwyr / Canran yn 2023/24 | Amrywiad |
|---|---|---|---|
| Dilys | 618 (65.3%) | 737 (83.7%) | -18.4% |
| Ddim yn Ddilys | 328 (34.7%) | 143 (16.3%) | +18.4% |
| **Cyfanswm** | **885** | **880 (Ac eithrio dechreuwyr newydd)** | |





O'i gymharu â diwedd blwyddyn ariannol 2023/24, gostyngodd nifer y gweithwyr â modiwl LearnPro Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 'Dilys' a gofnodwyd o 737 (83.7%) i 618 (65.3%). Mae'r statws 'dilys' ar gyfer y LearnPro Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn para am gyfnod o 2 flynedd, ac mae hyn yn egluro rhywfaint ar y gostyngiad sydyn mewn gweithwyr 'dilys'.

Ar ddiwedd 2024/25, mae cyfran y gweithwyr 'Ar Alwad – Dilys' yn 57% o gyfanswm y gweithwyr Ar Alwad. Ar gyfer gweithwyr Amser Cyflawn, y gyfran sy'n

# Cwblhau Modiwl E-Ddysgu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ôl Rôl







# Gweithwyr yn ôl Rhywedd a Swydd

Mae'r adran hon yn rhoi dadansoddiad o'r rhywedd yn ôl teulu swyddi/graddfa, ar gyfer yr unigolion hynny a oedd yn cael eu cyflogi gan GTAGC yn ystod y chwarter.

Sylwch fod y cyfansymiau a ddangosir isod yn seiliedig ar **swyddi presennol yn unig**.

## Gweithwyr yn ôl Rhywedd a Swydd – Teulu Swyddi





**% o'r Cyfanswm Cyffredinol**

| | 2023/24 | 2024/25 | Amrywiad |
|---|---|---|---|
| **Benyw** | 21.2% | 21.3% | +0.1% |
| **Gwryw** | 78.8% | 78.7% | -0.1% |

Mae'r data gweithwyr mewn perthynas â rhywedd a theulu swyddi yn debyg iawn i'r llynedd. Yn ystod 2024-25, bu newid cyffredinol o 0.2% o wahaniaeth yn rhaniad rhywedd y swyddi ar draws y gweithlu. Mae nifer y swyddi sy'n cael eu llenwi gan fenywod wedi cynyddu 0.1% gyda chyfran y dynion yn gostwng yn unol â hynny.

## Gweithwyr yn ôl Rhywedd a Swydd – Amser Cyflawn





### % o'r Cyfanswm Cyffredinol

| | 2023/24 | 2024/25 | Amrywiad |
|---|---|---|---|
| **Benyw** | 17.5% | 18.0% | + 0.5% |
| **Gwryw** | 82.5% | 82.0% | - 0.5% |

Mae 2024/25 wedi gweld cynnydd o 0.5% yng nghyfanswm nifer y swyddi Amser Cyflawn a lenwir gan fenywod. Ar ddiwedd Ch4 nid oes unrhyw reolwyr grŵp amser cyflawn benywaidd; dyma'r un sefyllfa â diwedd 2023/24. Mae un rheolwr gwylfa benywaidd ychwanegol o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

## Gweithwyr yn ôl Rhywedd a Swydd - Yr Ystafell Reoli





### % o'r Cyfanswm Cyffredinol

| | 2023/24 | 2024/25 | Amrywiad |
|---|---|---|---|
| **Benyw** | 80.6% | 80.6% | 0 |
| **Gwryw** | 19.4% | 19.4% | 0 |

Nid yw'r proffil rhywedd wedi newid o fewn adran yr Ystafell Reoli yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, er bod nifer y Rheolwyr Gorsaf benywaidd wedi gostwng ychydig (-1).

## Gweithwyr yn ôl Rhywedd a Swydd - Ar Alwad





### % o'r Cyfanswm Cyffredinol

| | 2023/24 | 2024/25 | Amrywiad |
|---|---|---|---|
| **Benyw** | 8.8% | 9.2% | + 0.4% |
| **Gwryw** | 91.2% | 90.8% | - 0.4% |

Mae cyfran y menywod mewn swyddi Ar Alwad wedi cynyddu 0.4%. Ni fu unrhyw newid i nifer y rheolwyr criw benywaidd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw reolwyr gwylfa benywaidd mewn swyddi Ar Alwad.

## Gweithwyr yn ôl Rhywedd a Graddfa Swydd – Graddfeydd Staff y Gwasanaethau Corfforaethol

Sylwch nad oedd unrhyw staff Gwasanaethau Corfforaethol wedi'u cyflogi ar raddfa 12 yn ystod y chwarter.




**% o'r Cyfanswm Cyffredinol**

| | 2023/24 | 2024/25 | Amrywiad |
|---|---|---|---|
| **Benyw** | 56.4% | 54.7% | - 1.7% |
| **Gwryw** | 43.6% | 45.3% | + 1.7% |

Er bod canran y menywod i ddynion wedi gostwng yn y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer gwirioneddol y menywod wedi cynyddu yn 2024/25, o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2023/24. Ar y cyfan, ni fu llawer o newid mewn graddfeydd cyflog ymhlith dynion na menywod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, er bod tuedd gadarnhaol sydd wedi gweld cynnydd yn nifer y menywod sy'n symud i fyny graddfeydd cyflog 6, 7, 8 a 9. Bu gostyngiad yn nifer y dynion mewn rhai o'r graddfeydd cyflog is, ond bu cynnydd yn nifer y dynion sy'n symud ymlaen yng ngraddfeydd cyflog canolig uwch 8 a 10.

## Yn y 5% Uchaf o ran Enillion

Mae'r adran hon yn rhoi dadansoddiad o ystodau oedran a rhywedd y rhai hynny yn y Gwasanaeth sydd yn y 5% uchaf o ran enillion.





Ymhlith y bobl yn y Gwasanaeth sydd yn y 5% uchaf o ran enillion mae un person ychwanegol yn y grŵp 60 a hŷn o'i gymharu â 2023/24, un yn llai yn y grŵp 55-59, dau yn ychwanegol yn 50-54, dim newid cyffredinol yn 35-49 a dau yn fwy yn yr ystod 25-34. Nid oes unrhyw bobl 16-24 oed yn y 5% uchaf, ac mae hyn yn ddigyfnewid ers y flwyddyn flaenorol. Ar ddiwedd 2023/24, roedd 73.3% o'r enillwyr uchaf yn ddynion, o'i gymharu â'r 74.4% o ddynion ar ddiwedd 2024/25.


# Gweithwyr yn ôl Math o Gontract

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar nifer y dynion a'r menywod a gyflogwyd yn ystod y chwarter yn ôl math o gontract. **Roedd holl staff yr Ystafell Reoli, ar wahân i ddau, yn cael eu cyflogi ar gontractau parhaol.**

## Gweithwyr yn ôl Math o Gontract – Gweithre





## Gweithwyr yn ôl Math o Gontract – Staff y Gwasanaethau Corfforaethol




# Gweithwyr yn Gadael yr Ochr Weithredol

Mae'r adran ganlynol yn canolbwyntio ar nodweddion gwarchodedig y Staff Gweithredol hynny a adawodd y Gwasanaeth yn ystod y flwyddyn. Roedd y gweithwyr a adawodd yr Ochr Weithredol wedi datgan eu bod yn unigolion Gwyn (Cymreig/Seisnig/Albanaidd/O Ogledd Iwerddon/Prydeinig), ac eithrio un nad oeddent wedi cofnodi eu hethnigrwydd. Roedd pump o'r 56 o weithwyr a adawodd yr Ochr Weithredol yn datgan eu bod yn fenywod (8.9%). Ar ben hynny, o'r deg o weithwyr a adawodd, mae wyth wedi'u cofnodi fel Heterorywiol, gyda dau heb ddatgan. Nid yw'r adran hon yn cynnwys staff yr Ystafell Reoli.


## Yn ôl Grŵp Oedran





## Yn ôl Statws Perthynas




## Yn ôl Crefydd / Cred





## Yn ôl Anabledd




# Gweithwyr yn Gadael y Gwasanaethau Corfforaethol

Mae'r adran ganlynol yn canolbwyntio ar nodweddion gwarchodedig Staff y Gwasanaethau Corfforaethol a adawodd y Gwasanaeth yn ystod y flwyddyn. Roedd gan un gweithiwr a adawodd y Gwasanaethau Corfforaethol anabledd wedi'i gofnodi fel Amhariad Corfforol. Ar ben hynny, roedd yr holl Weithwyr a adawodd y Gwasanaethau Corfforaethol wedi datgan eu bod yn unigolion Gwyn (Cymreig/Seisnig/Albanaidd/o Ogledd Iwerddon/Prydeinig), ac eithrio un sydd wedi'u cofnodi fel Gwyn - Arall. O'r 15 a adawodd, roedd deg yn datgan eu bod yn fenywod a phump yn ddynion.


## Yn ôl Grŵp Oedran





## Yn ôl Statws Perthynas




## Yn ôl Crefydd / Cred





## Yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol



## Ymchwiliadau sy'n ymwneud â Nodweddion Gwarchodedig

Mae'r ymchwiliadau hyn yn rhai lle mae nodwedd warchodedig wedi chwarae rhan yng nghyd-destun neu gynnwys yr ymchwiliad yn benodol.




Cafwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr ymchwiliadau yn ymwneud â nodweddion gwarchodedig o ddau yn 2023-24 i 11 yn 2024-25. Comisiynodd y Gwasanaeth adolygiad diwylliant annibynnol sy'n egluro rhywfaint ar y cynnydd mewn achosion yn 2024-25. Sylwer, er mai yn 2024-25 yr adroddwyd amdanynt, roedd rhai achosion a ddaeth i'r amlwg yn ystod neu fel rhan o'r adolygiad diwylliant yn rhai hanesyddol hyd at gyfnod o dair blynedd.

Yn 2024-25, cofnodwyd yr achosion a gategoreiddiwyd fel rhai Anabledd/Iechyd Meddwl fel cwynion cyflogaeth yn y ddwy flynedd, gyda'r gweddill yn rhai disgyblaeth.

## Siaradwyr Cymraeg

Mae'r adran hon yn rhoi dadansoddiad o nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Gwasanaeth yn ôl lefel eu gallu.

